Datganiad i'r Wasg
10 Chwefror 2010

Noson Gomedi'r Urdd!

Am y tro cyntaf erioed mae Urdd Gobaith Cymru, ar y cyd gyda Menter Iaith Sir y Fflint, yn trefnu Noson Gomedi yng Ngwesty'r Springfield, Helygain, Sir y Fflint. Bydd rhai o gomediwyr mwyaf adnabyddus Cymru yn cymryd rhan gan gynnwys ffarmwr enwocaf Cymru, y Ffarmwr Ffowc, a chomedïwr lleol o Sir Ddinbych, John Sellers. Cynhelir y noson ar 20 Chwefror am 7.00 yr hwyr, gyda'r bwriad o gychwyn Aelwyd yr Urdd newydd yn Sir y Fflint.

Meddai Siân Rogers, Cyfarwyddwr Urdd Gobaith Cymru yn y Gogledd a'r Canolbarth: "Mae datblygiadau cyffrous wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf yn Sir y Fflint o fewn y sector ieuenctid Cymraeg, gyda'r iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth ac ysgolion yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr iaith yn yr ardal. Yn deillio o hyn rydym yn awyddus i gychwyn Aelwyd newydd sbon yn lleol. Gobeithio bydd y noson gomedi yn ddechrau da i ddod â phobl ifanc at ei gilydd, er bod croeso i unrhyw un fynychu'r noson!"

Fe ddylai fod yn noson i'w chofio, yn enwedig o gofio y bydd y Ffarmwr Ffowc yn teithio ar hyd yr A55 yn ei 'Misubishi open top pic-up tryc' i Westy'r Springfield. Mae'n siŵr bydd digonedd o fêls gwellt yn cael eu taflu mewn i'r pic- up er mwyn bod yn rhan o'i sgetsys lliwgar, ond tybed a fydd yna *lady-friend* yn gwmni iddo?

"Wel ry'ch chi'n gwybod gystal â fi bod y Ffarmwr Ffowc yn ddyn sengl felly pwy a ŵyr - mae'n ddigon posib y daw o hyd i wraig yn y noson gomedi," eglura'r actor Eilir Jones o Lansannan sy'n chwarae rhan y Ffarmwr Ffowc. "Mae e'n hollol wahanol i fi gan mod i'n briod a dau o blant. Mae'r cymeriad yn deillio o fy nyddiau yn fachgen ifanc yn byw yn Sir Feirionnydd. Roedd fy nhad yn weinidog ac roedd y teulu yn symud o un lle i'r llall ar draws y gogledd. Rwy'n cofio sawl ffarmwr yn galw yn y tŷ pan oedden ni'n byw yn Sir Feirionnydd. Roedd nosweithiau allan yn gymysgwch o gwrw, pic-up trycs ffermwyr, ffeit ar y ffordd adre ac wrth gwrs merched! Crëwyd y Ffarmwr Ffowc pan oedden i yn dechrau gweithio ar sioe dafarn i Gwmni Theatr Bara Caws tua 15 mlynedd yn ôl. Mae e wedi bod yn llwyddiannus iawn a dwi hyd yn oed wedi perfformio ambell i sgets yn Saesneg yn ddiweddar - mi weithiodd yn grêt yn y Saesneg hefyd!"

Yn ymuno gyda'r Ffarmwr Ffowc ar y llwyfan bydd y comedïwr lleol John Sellers. Mae'n enwog am ei siwtiau lliwgar ac mae'n hen law ar ddiddanu cynulleidfaoedd.

Yn perfformio hefyd bydd Lloyd Antrobus o Ysgol Maes Garmon a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Talent FFM a gynhaliwyd hefyd yng Ngwesty'r Springfield ar ddechrau mis Rhagfyr.

Meddai Darren Morris, Swyddog Datblygu Urdd Gobaith Cymru Fflint Maelor: "Mae'r noson yn syniad newydd i'r Urdd, ond gobeithio y bydd yn un i'w chofio. Gobeithio y bydd y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn creu Aelwyd newydd yn mwynhau'r noson a bydd yn ddechrau da ar gyfer cyfres o weithgareddau i ddilyn yn ystod y flwyddyn."

Mae'r noson ar yr 20 Chwefror yn cychwyn am 7.00 yr hwyr yng Ngwesty'r Springfield, Helygain oddi ar yr A55. Pris tocynnau yn £5. Ni fydd mynediad i rai o dan 16 oed. Mae tocynnau ar gael drwy ffonio 01352 744047 neu e-bostio Darrenm@urdd.org <mailto:Darrenm@urdd.org>

Cefnogir y noson gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chefnogaeth arian Ewropeaidd.

Am fwy o fanylion, cysyllter â Manon Wyn, 01970 613115, **manonwyn@urdd.org**

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.